

Zimbabwe

Mae'r prosiect mewn ardal wledig iawn o ogledd Zimbabwe, ar lannau deheuol Llyn Kariba. Mae safle'r prosiect yn ymestyn dros 786,000 hectar o dir coedwig a 250,000 hectar o dir amaethyddol cymunedol. Mae'r ardal yn gartref i 200,000 o bobl.



Y problemau sy'n wynebu'r gymuned

Mae Zimbabwe wedi dioddef o ryfel a llawer o broblemau eraill. Mae gan y rhan fwyaf o'r boblogaeth incwm isel iawn.

Does dim digon o swyddi yn Zimbabwe, ac mae'r boblogaeth wedi tyfu'n fawr. Un ffordd mae pobl wedi ceisio goroesi yw drwy sefydlu ffermydd bach mewn mannau lle nad oes tir da iawn. Mae hyn yn peri iddynt dorri coed a phlanhigion eraill i dyfu cnydau.

Mae sychder yn cynyddu, sy'n golygu bod tyfu bwyd yn llawer anoddach.

Beth mae'r prosiect yn ei wneud?

Ceisio dod o hyd i ffyrdd y gall ffermwyr wneud incwm allan o gynhyrchion o'r goedwig, er mwyn diogelu'r goedwig a'r bywyd gwyllt sydd ynddi.

Gwella gallu pobl i gael dŵr yn hawdd, cael addysg dda a gallu cael gwasanaethau iechyd.

Y cymunedau lleol sy'n rheoli'r prosiect ac yn awgrymu'r gweithgareddau.

Mae'r ffermwyr yn defnyddio tomwellt (pethau fel compost, dail neu risgl i orchuddio pridd sych) o amgylch eu cnydau, fel eu bod yn tyfu'n well ac yn cynhyrchu mwy o fwyd, a does dim rhaid iddyn nhw ddal i glirio mwy o dir.

Maen nhw wedi sefydlu gerddi cymunedol wrth ymyl tyllau turio, er mwyn iddynt allu cael dŵr yn hawdd i'w tyfu, hyd yn oed yn y misoedd sych, a chynhyrchu mwy o fwyd.

Maen nhw'n cadw gwenyn sy'n rhoi incwm iddynt, ac mae hyn yn rheswm dros warchod coed, gan fod cychod gwenyn yn cael eu gosod yn y coed.

Maen nhw'n plannu coed fel eu bod yn gallu casglu coed tân. Maen nhw hefyd yn plannu coeden o'r enw Moringa, sy'n cynhyrchu codennau hadau a dail y gellir eu bwyta a'u defnyddio ar gyfer meddyginiaeth.

Maen nhw wedi penodi patrolwyr i chwilio am botswyr, ac maen nhw wedi dal llawer ohonynt.

Storiâu pobl

'Gardd y Mamau'

Mae Gardd Gymunedol Tashinga (sef 'Gardd y Mamau') yn grŵp o fenywod sy'n tyfu bwyd iddyn nhw eu hunain a'u plant, ond sydd hefyd yn rhoi'r rhan fwyaf o'r bwyd maen nhw'n ei gynhyrchu i blant amddifaid lleol, gan ddarparu ffynhonnell faethlon a dibynadwy o fwyd. Mae'r cynhaeaf sy'n weddill yn cael ei werthu i godi arian tuag at addysg y





plentyn amddifad.

Maen nhw'n tyfu'n organig ac yn defnyddio tomwellt ac yn cylchdroi cnydau. Mae hyn yn golygu eu bod nhw'n newid y cnwd sy'n cael ei dyfu yn y darnau gwahanol o'u tir o flwyddyn i flwyddyn, gan ei bod yn well i'r pridd ac nid yw plâu yn cronni.

Mae'r menywod yn addysgu plant lleol am yr amgylchedd, maethiad a ffermio cynaliadwy, ac yn sicrhau bod yr arferion da hyn yn cael eu trosglwyddo i genedlaethau'r dyfodol.

Stori Media Chiyangwa

"Fy enw i yw Media Chiyangwa. Dechreuais arddio yn 2012, pan gyflwynwyd y prosiect hwn yma. Yn ystod blynyddoedd blaenorol, cyn gwybod amdano, roeddwn yn dlawd yn ariannol ac yn feddyliol ond erbyn hyn, rwy'n gyfoethog. Rwyf wedi cael fy hyfforddi mewn sut i ddefnyddio adnoddau cyfagos a fy nwylo fy hun i fod yn annibynnol. Rwy'n defnyddio tail i fwydo fy llysiau ac yn rheoli plâu yn naturiol drwy ddefnyddio tsili, garlleg, liffobia ac ati.

Rwy'n gwerthu fy llysiau drwy gydol y flwyddyn. Rwy'n teithio cyn belled â Chirundu, Kariba ac ati, lle mae llysiau gwyrdd yn brin. Rwyf hefyd yn coginio ar gyfer fy mhlant ac yn rhoi bwyd i'r cynlluniau bwydo babanod yn ein hysgol gyfagos. "



Mr Chiguta, yr hyfforddwr

Mr Chariot Chiguta oedd un o'r prif ffermwyr cyntaf i gael hyfforddiant ar ffermio cadwraeth gan y prosiect.

Hyd yn hyn, mae Mr Chiguta wedi hyfforddi a helpu 161 o ffermwyr mewn ffermio cadwraeth a 61 o ffermwyr mewn cadw gwenyn. Mae'n helpu ffermwyr newydd i ddod o hyd i lefydd i werthu eu mêl hefyd. Pan ofynnwyd iddo, dywedodd Mr Chiguta wrthym mai ei weledigaeth yw parhau i helpu ffermwyr i fod yn fwy cynhyrchiol ac i ofalu am eu hamgylchedd.

Pwmp dŵr Mrs Tenda

Gwraig weddw yw Mrs Tenda sy'n cefnogi teulu o bump ar ei phen ei hun. Mae hi hefyd yn aelod o Ardd Faeth Kariba Nyambudzi. Roedd hi'n gweld bod dyfrio ei rhan hi o'r ardd gyda llaw yn cymryd amser. Roedd Mrs Tenda yn gallu defnyddio'r elw wrth werthu bwyd o'r ardd gymunedol i gynilo ar gyfer pwmp dŵr. Ers prynu'r pwmp, mae ganddi nawr fwy o amser rhydd, ac mae hi'n gallu treulio mwy o amser gartref yn gofalu am ei theulu.

Partner – Pegwn y De